

Gair bach Bethlehem 19



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 19 2020(Sul Medi 6)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Ail agor y drysau

Mae'r penderfyniad wedi ei wneud, a'r Ymddiriedolwyr a'r Diaconiaid yn gytûn mai ar y 13eg o Fedi 2020 y bydd Bethlehem yn ail-agor y drysau ac yn gwahodd y gynulleidfa yn ôl i'r gorlan.

Gwn fod ambell i gapel yn y cylch eisoes wedi ail-afael yn y dyletswyddau ers mis Gorffennaf, ond yma, yng nghysgod y Garth, aros am ychydig yn hwy oedd yn taro orau.

Oedfa wahanol

Bydd yn oedfa arbennig, dan arweiniad Delwyn Sion, ond bydd hefyd yn oedfa wahanol iawn i'r hyn sydd yn gyfarwydd i bob un ohonom.

Yr Ysgol Sul

Ni fydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn o fewn muriau'r adeilad serch hynny, ond 'rydym yn hynod falch bod yr arbrawf o gael cwmni'r plant ar y Sul trwy gyfnod y clo, yn rhithiol, o'u cartrefi, wedi profi'n llwyddiant, a bydd hynny yn parhau dros yr wythnosau nesaf. (Gweler tud. 2)

Bydd adolygiad cyson o'r sefyllfa yn rhoi gwell

arweiniad i ni yn y man o'r hyn fydd angen ei wneud er sicrhau bod teulu Bethlehem yn gallu dod at ei gilydd fel un unwaith yn rhagor.

Mawr fydd y disgwyl am hynny oherwydd bod colli presenoldeb a swm y plant o oedfa yn loes calon i bob un ohonom. Mae cwestiynau di-rif wedi codi yn sgil y trafodaethau ar ail-agor, o ddilyn y canllawiau a baratowyd ar ein cyfer gan Undeb yr Annibynwyr, ond parodrwydd yr aelodau i ymddiried bod popeth posibl wedi ei wneud er sicrhau diogelwch pob unigolyn fydd y maen prawf.

Dod i addoli y byddwn i gyd, serch hynny, ac yn yr ysbryd hwnnw y gwahoddwn chwi i'n plith.

Ond beth yn union fydd y drefn? **MAE MANYLION LLAWN Y PARATOADAU AR DUDALENNAU 3 – 5 o'r rhifyn hwn.**

Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd

Cofiwch roi gwybod i Rhodri os ydych chi'n bwriadu dod i'r oedfa!

Ond y Sul hwn, cyn ail agor y drysau...

**Bydd Myfyrdod a Chymun ar-lein
dan arweiniad
Delwyn Sion
Dydd Sul, Medi 6**



*Gan y byddwn yn cydrannu yn sacrament y cymun bendigaid tua diwedd yr oedfa rithiol, awgrymir eich bod yn **paratoi bara a llymaid mewn cwpan** i gyd-gymuno.*

Dyma'r manylion sut i gysylltu a gweld yr oedfa hon:

<https://youtu.be/wcXZUZtVVLE>

Fel arfer, bydd y ddolen gyswllt uchod yn weithredol tua 7.00 fore dydd Sul.

Byddwn gyda'n gilydd yn yr ysbryd a thrwy gyfrwng y cyfryngau digidol.

Manylion yr Ysgol Sul ar-lein



Gobeithio eich bod chi blant wedi cael haf da a'ch bod wedi cael cyfle i fwynhau rhywfaint o'r tywydd braf. Gobeithio bod y rhan fwyaf ohonoch chi nôl yn yr ysgol erbyn hyn ac yn cael cyfle i ddal lan â'ch ffrindiau - a'ch gwersi wrth gwrs. Mae rhai ohonoch chi wedi symud ymlaen i'r ysgol uwchradd eleni a hoffwn ddymuno'r gorau i chi wrth wneud ffrindiau newydd a dysgu pynciau gwahanol. A gobeithio y byddwch dal yn ffyddlon i deulu Bethlehem a'r Ysgol Sul.

Oherwydd y cyfyngiadau presennol ni fydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ym Methlehem ar hyn o bryd ond byddwn yn dal i gynnal Ysgol Sul rhithiol am 10.30 bob bore dydd Sul **gan ddechrau ar yr 20^{fed} o Fedi**. Byddwn yn cynnal Cwrdd Diolchgarwch rhithiol eleni ar 11^{eg} o Hydref ac fe fydda i'n anfon at bob un ohonoch chi yn y man **i ofyn i chi recordio darn ar gyfer y fideo** a fydd yn cael ei ddarlledu ar sianel *YouTube* Bethlehem.

Gobeithio y byddwn yn medru dychwelyd at yr *hen drefn newydd* cyn bo hir, ond yn y cyfamser rwy'n gobeithio gweld cymaint ohonoch a phosibl bob bore Sul o'r 20^{fed} ymlaen.

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com 07779 360614

Sut brofiad fydd mynychu oedfa unwaith yn rhagor tybed?

Dyma'r manylion yn llawn gan ein hysgrifennydd – Rhodri-Gwynn Jones

Mawrth y 15^{fed} oedd y tro diwethaf i ni ymgynnull fel un teulu cyfan, a phryd hynny oedfa dan arweiniad ein cyn-weinidog, y Parchedig R Alun Evans, a gafwyd. Ers hynny mae'r capel wedi bod yn lle unig iawn, gyda'r Beibl a Chaniadau Ffydd ar gau, yr organ yn ddi-nodyn, a'r blychau casglu yn swatio'n wag yng nghornel y Set Fawr.

Bydd oedfaon y dyfodol yn dra gwahanol i'r hyn yr ydym wedi bod yn gyfarwydd â nhw, fe wyddom gymaint a hynny, ond ein gobaith ydi y byddwn yn gallu dod o hyd i batrwm addoli fydd yn cydweddu'n hwylus â'r cyfnod heriol yma sydd wedi bod ar ein gwarthaf ers canol mis Mawrth.

Brysiad i ddweud serch hynny nad yw'r hyn sy'n dilyn i'w ddehongli fel rhoi pwysau ar unrhyw un sydd o hyd yn teimlo'n bryderus i fynychu oedfa o fewn muriau'r capel ar hyn o bryd. Beth bynnag eich cymhelliad, naill ffordd neu'r llall, y chwi sydd i benderfynu yn ôl yr hyn y teimlwyd fwyaf cysurus ei wneud.

I bawb na fydd yn gallu bod yn bresennol, am ba bynnag reswm, mae'n fwriad (os bydd yr offer priodol ar gael ac at ein defnydd) i recordio'r gwasanaeth a'i drosglwyddo i'ch cartrefi trwy'r dulliau amgen a ddefnyddiwyd eisoes yn ystod y cyfnod clo.

Sut mae paratoi ar gyfer ail-agor?

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Diaconiaid wedi dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr, sydd wedi eu seilio ar gyfyngiadau Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ar ailagor manau addoli. Bu cyfarfod o'r naill grwp a'r llall, a chytunwyd y gellid, o ddilyn y canllawiau, symud ymlaen i ailagor y capel a chynnal oedfa ar fore Sul y 13^{eg} o Fedi 2020.

Beth sydd wedi ei wneud i sicrhau cydymffurfio a'r gofynion?

O ystyried nad oedd unrhyw ddefnydd o'r capel wedi ei wneud ers y Clo, 'roedd angen:-

- archwilio'r lle'n fanwl er sicrhau ei fod mewn cyflwr da a diogel;
- cynnal Asesiad Risg; a
- hysbysu'r Cwmni Yswiriant o'r bwriad i ailagor.

❖ Archwilio cyflwr yr adeilad:-

- 'Roedd angen i ddau berson (dan amodau ynysu) ymgymryd â'r dasg a chofnodi'r hyn a ddaeth i'w sylw.
- 'Roedd yn rhaid gwirio'r system drydan ynghyd ag unrhyw offer / cyfarpar trydanol
- 'Roedd yn rhaid sicrhau bod digon o ddŵr wedi ei redeg trwy'r systemau i'w hireiddio.

❖ Cynnal Asesiad Risg:-

- Eto, 'roedd angen i ddau berson wneud yr asesiad risg (dan amodau ynysu) gan:-
 - Nodi'r peryglon, a'u cofnodi
 - Pwy sydd mewn perygl, a'i gofnodi
 - Penderfynu ar ffyrdd i leihau'r risg
 - Cofnodi'r casgliadau
- Yn ychwanegol bydd angen asesiad wythnosol cyn pob oedfa fel mater o arfer
- Ac hefyd bydd angen adolygu a diweddarau yn ôl yr angen.
- Bydd copi o'r Asesiad Risg yn cael ei leoli yn y cyntedd, a bydd copi ychwanegol yn cael ei gadw mewn ffeil gan yr Ysgrifennydd.

Mae'n hanfodol ein bod yn cydymffurfio â gofynion ymbellhau cymdeithasol, a bydd yn rhaid cadw pellter o 2 fetr (i bob cyfeiriad) rhwng unigolion o wahanol aelwydydd o'i gilydd gydol yr amser o fewn terfynau'r capel, y tu allan a'r tu fewn.

Bydd arwyddion yn eich atgoffa o hyn tu allan a thu mewn i'r capel.

Beth fydd yn eich disgwyl pan gyrraeddych Fynedfa a Chyntedd y capel?

- Er sicrhau system un ffordd i gyrraedd a gadael yr adeilad, byddwn yn eich cymhell at ddrws y capel ar hyd yr esgynfa (ramp), trwy'r giât sydd wrth ymyl y blwch postio coch.
- Eich dewis chi fydd gwisgo mwgwd neu beidio
- Bydd marciau ar lawr ar yr esgynfa yn dynodi y pellter i'w barchu tra'n disgwyl mynediad i'r capel.
- Bydd dau stiward, yn gwisgo mwgwd, yn y fynedfa i'ch cyfarch a'ch hebrwng i'ch sedd.
- Bydd diheintydd dwylo yn y cyntedd at eich defnydd.

Yn gwyno:

- Oedfa ym Methlehem gyda Delwyn Sion
- Rhowch wybod i Rhodri eich bod yn bwriadu dod i'r oedfa
- Pobman wedi ei ddiheintio
- Parcio – (manyllion i dilyn)
- Ymbellhau bob amser
- Eich dewis chi fydd gwisgo mwgwd neu beidio
- System unffordd – mewn ar y ramp, mas drwy'r giât
- Diheintyddion ar gael
- Toiled gydag amodau glanweithdra
- Stiwardiaid â masg i'ch tywys i'ch sedd
- Lleoliadau wedi eu cyfyngu i barchu'r drefn cadw o fewn 2 fetr
- Ymadael dan gyfarwyddyd stiwardiaid
- Dim canu, llefaru na phaned wedi'r oedfa
- Yr adeilad yn cael ei lanhau ar gyfer yr oedfa ganlynol

(Mae'r manyllion llawn yn yr erthygl ar y chwith ac ychydig o luniau ar dudalen 5)

[Noder: Diheintydd yn cynnwys alcohol fydd yn cael ei ddarparu yn y cyntedd. Bydd croeso i unrhyw un sydd a chonsyrn am y cynhwysion ddefnyddio'r dŵr a'r sebon fydd wedi ei ddarparu yn y tŷ bach.]

- Bydd arwyddion yn y cyntedd i'ch atgoffa am symptomau Covid-19 a phwysigrwydd hunan-ynysu, a dylid hysbysu'r stiwardiaid os ydych yn credu bod y symptomau rheini gennych. (Mewn sefyllfa o'r fath bydd yn rhaid i'r stiwardiaid wrthod mynediad i'r adeilad.)
- Bydd popeth wedi ei glirio o'r cyntedd ac felly **ni** fydd llyfrau emynau ar y silffoedd.
- Bydd y stiwardiaid yn cadw cofnod o'ch presenoldeb, a bydd y cofnod yn cael ei gadw am dri mis.

Beth fydd y drefn o fewn y capel?

- Bydd y stiwardiaid yn eich hebrwng i'ch sedd oherwydd bydd nifer o seddau ar lawr y capel ac ar y galeri ar glo er sicrhau ymbellhau cymdeithasol.
- Dylai pawb amcanu i gyrraedd eu sedd cyn gynted a phosibl ac aros yno tan ddiwedd yr oedfa. [Hwyrach y bydd yn rhaid cyfyngu ar y nifer sy'n cael dod i mewn i'r capel er mwyn osgoi gorlenwi. Hwyrach yn wir y bydd angen creu system rota, a fydd yn caniatáu i bawb gael cyfle i addoli yn eu tro.]
- Bydd pellter digonol wedi ei sicrhau rhwng arweinydd yr oedfa (yn y Set Fawr neu'r Pulpud) a'r gynulleidfa.
- Ni fydd rhannu defnydd o unrhyw offer / cyfarpar yn cael ei ganiatáu e.e. meicroffonau, piano
- Bydd y drysau mewnlol (ac eithrio'r drysau tân) yn cael eu cadw ar agor yn ystod yr oedfa (a byddwn yn sicrhau bod y capel wedi ei awyru'n ddigonol cyn dechrau'r oedfa).
- Ni fydd unrhyw gydweithgaredd yn cael ei ganiatáu - felly dim canu, dim cyd-lefaru, na dim lluniaeth wedi'r oedfa.
- Bydd y Beiblau, y llyfrau emynau ac unrhyw ddefnydd arall at gynnal oedfa o'r herwydd wedi eu gosod o'r neilltu yn ddiogel am y tro.
- Ond os byddwch yn cymryd rhan dewch â'ch deunyddiau eich hunain gyda chwi.
- Os byddwch am ddod â chlustog gyda chwi i'r oedfa, ewch â hi adref gyda chwi ar ddiwedd yr oedfa. [Mae'r clustogau oedd eisoes yn y capel wedi eu casglu a'u rhoi mewn cwdyn plastig clir a'u cadw yn y galeri. Gall y stiwardiaid eich cynorthwyo i ddod o hyd i'ch clustog ar eich ymweliad cyntaf ond bydd angen i chwi, fel y noder uchod, fynd â hi gyda chwi ar ddiwedd yr oedfa.]

Noder: Peidiwch, serch hynny, â dod ag un dim diangen i'r oedfa na gadael dim byd ar eich ôl chwaith!

- Bydd yr adeilad wedi ei lanhau cyn ei agor gyda phwyslais ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd, megis seddau, dolenni drysau a switsys goleuadau. Gofynnwn i chwi beidio a chyffwrdd ag unrhyw arwyneb yn ddiangen.
- Bydd y blychau casglu yn cael eu gosod yn y fynedfa i dderbyn yr offrwm, a bydd y swyddogion ariannol yn sicrhau arferion ynysu a diogelwch da wrth ei drafod.
- Byddwn yn annog pawb i **beidio** â defnyddio'r tŷ bach cyn belled ag y bo hynny'n bosibl - ond a bwrw bod yn rhaid i hynny ddigwydd, dylid parchu'r canllawiau ynysu. Bydd cyflenwad o ddŵr cynnes a sebon ar gael i olchi dwylo, a thywelion papur i'w sychu, a man cyfleus i waredu'r tywel wedi hynny.

[Noder: os bydd angen defnyddio'r tŷ bach, ni chaniateir mynediad ato trwy'r Festri, ond yn hytrach bydd angen dilyn y llwybr allanol o amgylch y capel sy'n arwain at y gegin.]

Beth fydd y drefn ar ddiwedd yr oedfa?

- Ar ddiwedd yr oedfa dylai pawb adael cyn gynted ag y bo modd, mewn dull trefnus yn ôl cyngor ac o dan ofal y stiwardiaid. Gall hyn olygu gwagio llawr y capel i ddechrau ac wedi hynny y galeri, un hanner ar y tro.
- Gofynnir i bawb ymadael trwy'r brif fynedfa, ac i lawr y grisiau sy'n arwain at y palmant a'r ffordd.

Noder:

Bydd yr adeilad yn ei gyfarwydd, y capel a'r festri, wedi ei lanhau yn drylwyr gan gwmni proffesiynol cyn iddo gael ei agor am y tro cyntaf ar y 13eg o Fedi 2020. Wedi hynny bydd y glanhawyr cyflogedig eraill yn ymweld yn wythnosol (yn lle pob pythefnos) ac yn parhau â'u dyletswyddau yn ôl y drefn hylendid arferol.

Noder:

Yn dilyn yr oedfa ar y 13eg o Fedi 2020, bydd adolygiad yn cael ei wneud o'r drefn fel sydd wedi ei hamlinellu uchod, gyda'r bwriad o wneud unrhyw newidiadau posibl er hwyluso'r drefn ar gyfer yr wythnosau fydd yn dilyn.

Noder:

Oherwydd y cyfyngiadau sydd arnom, ac er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer yr oedfa ar y 13eg o Fedi, 'rydym yn amcangyfrif mai rhyw 50 o gynulleidfa y gallwn eu cynnwys o fewn yr adeilad (yn cynnwys y llawr a'r galeri) er sicrhau cydymffurfio ag ymbellhau cymdeithasol.

Er mor chwithig ydi'r cais, tybed a fydddech yn ystyried rhoi gwybod i mi ymlaen llaw am eich bwriad i fynychu'r oedfa ar y dyddiad hwn. **Byddai neges e-bost i: rhodrigj@btinternet.com yn dra derbyniol.**

Diolch i chwi am eich cefnogaeth gyson i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, gan ddeisyf y cawn nerth i oresgyn yr holl rwystrau sydd ar ein taith ar hyn o bryd.

Pob bendith, **Rhodri-Gwynn Jones**

Ar ran Ymddiriedolwyr a Diaconiaid Bethlehem, Gwaelod-y-garth.



Stiwardiaid i'ch tywys o'r 'ramp' i'ch sedd ... offer glanhau dwylo wrth y drysau ... Dim angen llyfrau!



Sedd 2 fetr oddi wrth eich cyd-aelodau (wedi eu marcio) ... Ymadael dan gyfarwyddyd stiward drwy'r giât ffrynt!

NEWYDDION BETHLEHEM

Anfonwn ein cofion at

- **Elen Lewis**, Radur, sydd wedi cael cyfnod o salwch.
- **Cath ac Emyr Edwards**, Llandaf, y ddau heb fod yn dda ar hyn o bryd.

Croeso adre i...

- **Rhodri Lewis**, Llandaf (mab Ann a Gerallt) sy'n dychwelyd ar ôl dwy flynedd yng Nghnada ganol mis Medi!

Llongyfarchiadau i...

- **Aled Cartwright**, Llandaf (mab Marged a Peter) ar ennill gradd M.Eng. mewn peirianeg fecanyddol o Brifysgol Birmingham, a da yw nodi ei fod bellach yn gweithio yn ymchwilio i batentau peiranyddol (yng Nghasnewydd) wedi iddo sicrhau swydd ddechrau Awst! Teithio oedd ei fwriad ond bu'n rhaid newid hynny diolch i'r Cofid.
- **Huw Evans** (mab Peredur a Delyth, Yr Eglwys Newydd) ar ei Radd mewn Ffiseg a Mathemateg o'r Brifysgol Agored. Ar hyn o bryd mae'n cymhwyso i fod yn athro ysgol Uwchradd.
- **Dylan Hughes**, Pentrepoeth (mab Ian ac Ann) ar ei radd Ll.B. o Brifysgol Bryste, ar hyn o bryd yn gweithio ym Mryste cyn cychwyn ar ei gwrs LPC ym Mryste.
- **Anthony Evans a Delwyn Sion**, y ddau wedi ei derbyn i'r Orsedd yn y wisg werdd. Y naill yn arlunydd a chyn athro ac o Gwm Gwendraeth. Y llall yn gerddor, cyfarwyddwr teledu ac arweinydd Bethlehem. Dyfalwch chi prun yw prun!

Dymuniadau da...

- i'r **Dr. Ian Hughes**, Pentrepoeth, ar ei ymddeoliad o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.



Dyna fyddai'r gair ola wrth ffarwelio. "Welwn ni chi mhen y flwyddyn." Ond nid felly y bu hi leni. A dyna dorri ar draddodiad o ymweld â'r capel bach bob blwyddyn er 1954. Am chwe deg pump o flynyddoedd fe fûm i'n pregethu yn Biwla, Cwm Nant yr Eira yn ddi-dor. Ond nid leni.

Enw hudolus. Cwm Nant yr Eira. Ond ble mae'r cwm? Os ydych chi teithio i'r gogledd ar yr A470, a gadael Llanidloes o'ch ôl, ewch trwy Landinam a throi am Gaersws. Ymlaen i Garo ac i gyfeiriad Llanbryn-mair. Fe welwch chi'r enw Talerddig,

ac yno'n ddi-rybudd mae arwydd i'r dde 'Llanerfyl'. Dilyn yr arwydd hwnnw a theithio trwy dir ddigon anial. Rhyw bum milltir wedi gadael yr A470 mae capel ar yr ochr chwith. Dyna Biwla.

Fe sgrifennodd Dr Iorwerth C. Peate wrth gofio rhai o wŷr capel Biwla yn 1932 :

Ni ddychwel yr hen leisiau yn ôl i Fiwla trwy

Flin drais y ddwylath gweryd; bu'n ormod iddynt hwy.

Bydd dawel, galon ysig, a phaid â'u disgwyl mwy.

Cyn-dadau Dr Peate a gododd y capel yn 1876. Ym mhym degau'r ganrif ddiwethaf, pan euthum yno gynta', roedd gan bob pregethwr ei Sul "mhen y flwyddyn" ei hun – Niclas y Glais ar 'y Sul gosa at y dydd hira.' Nhad, ar y trydydd Sul o Orffennaf. Ar gefn poni y byddai ef yn teithio i'w gyhoeddiad cyn agor y ffordd o Dalerddig i Lanerfyl. A minnau, ar y Sulgwyn am rai blynyddoedd, ac yna'r Sul ola o Awst. Ond nid leni.

"Faint o gynulleidfa gewch chi"? Ardal amaethyddol yw hon a theuluoedd y ffermydd cyfagos yw'r aelodau.

Mae ffermydd gwaelod a chanol y cwm yn troi am y capel Presbyteriaidd sy'n nes at Lanerfyl. Teuluoedd y topie sy'n dod i Biwla – Dolwen, Dolau, Dolau Ceimion, Tŷ Isa a Chwmdrwen. Fe fydde teulu Canon a Neinthirion hefyd yn ffyddlon. Ond Saeson sy'n byw yno bellach. Y ffarmwr a'i wraig, y plant a'r gweision. Tuag ugain yw'r aelodaeth. Ac i chwyddo'r gynulleidfa fe ddaw rhai o blant y cwm adre'n ôl, ac ambell ymwelydd. Yn wir, bu'n raid i mi newid pregeth ar y funud ola un pnawn gan fod ymwelwyr o Hermon, Cynwyl Elfed wedi taro i mewn a minnau wedi bod yn Hermon rai Suliau ynghynt!

Gan nad oes trydan yn y capel dim ond am bum mis o'r flwyddyn y cynhelir oedfaon yn Biwla, o fis Mai i fis Medi. Dwi wedi cael y fraint o weinyddu mewn angladdau, o godi diaconiaid, o dderbyn pobol ifanc yn aelodau a bedyddio sawl plentyn yma tros y blynyddoedd. Ac o sôn am blant ... adnodau'r plant. "Sgen ti adnod"? Yntau, gan bwyntio at ei frawd bach, "Nagoes. Mae'r diawl yna wedi deud f'un i."!

Nid leni. Ond ymhen y flwyddyn, os byw ac iach ...



Bathwyd y term “normal newydd” yn ystod cyfnod y clo, ac ar hyn o bryd, byw dan glo yw’r “normal newydd” i ni am ychydig eto, er y llacio ar y rheolau. Gwelwyd cryn ddyfeisgarwch gan lawer ar sut i lenwi’r oriau o lonyddwch a segurddod. I rywun fel fi, dim dyfeisgarwch, dim ond ail ddarganfod trysorau’r llyfrgell a phleserau darllen. Mae stôr e-lyfrau Llyfrgell Caerdydd yn rhyfeddol, yn y ddwy iaith. Ond mae rhai o’r llyfrau ar y silffoedd yn fy stydi’n drysorau hefyd, ac mae’r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfle i edrych ar ambell un o’r newydd. Felly, sylw i rai o’r llyfrau hynny a’u hawduron fyddaf yn y gyfres hon. Ond ble mae dechrau? O ddilyn yr wyddor, A am Armstrong.

Karen Armstrong

Cafodd ei geni yn Wildmoor yn Sir Gaerwrangon yn 1944. Roedd hi’n dod o gefndir Gwyddelig, a’i theulu’n Gatholigion. Yn 18 oed ymunodd ac urdd o leianod, *Sisters of the*



Holy Child Jesus. Doedd y saith mlynedd a dreuliodd gyda’r chwirydd ddim yn gyfnod da. Yn ei hunangofiant (*Through the Narrow Gate* 1982) mae’n sôn am y gamdriniaeth corfforol a seicolegol a brofodd fel lleian. Gadawodd yr urdd yn 1969 pan oedd hi’n fyfyrwraig yn Rhydychen. Trodd i fyd addysg am ychydig ac yna i fyd ysgrifennu a darlledu. Yn 1984 cafodd gomisiwn gan Channel 4 i wneud rhaglen ar Sant Paul - a “breakthrough experience” that defied her prior assumptions and provided the inspiration for virtually all her subsequent work.

https://en.wikipedia.org/wiki/Karen_Armstrong

Mae’r “subsequent work” yna wedi bod yn sylweddol a thoreithiog, a bellach mae’n cael ei hystyried fel un o brif ladmeryddion y byd ar faterion crefyddol. Mae hi wedi ysgrifennu dros 15 o lyfrau. Mae tri ar fy



silffoedd: *The Bible – the biography; The Case for God – what religion really means; The Lost Art of Scripture – rescuing the sacred texts*.

Heddiw, mae Karen Armstrong yn hyrwyddo gwaith y mudiad [Charter for Compassion](https://charterforcompassion.org/affirm-and-share-the-charter-for-compassion) sy’n seiliedig ar egwyddor y Rheol Euraid, sef trin eraill fel y byddech chi am gael eich trin (Mt.7:12, Luc 6:31). Mae’r mudiad yn pwysleisio’r angen i adfer tosturi / trugaredd yn ein gwahanol grefyddau. “Born of our deep interdependence, compassion is essential to human relationships and to a fulfilled humanity.” Gallwch gefnogi’r siarter yma: <https://charterforcompassion.org/affirm-and-share-the-charter-for-compassion>

“Religion is not about accepting twenty impossible propositions before breakfast, but about doing things that change you. It is a moral aesthetic, an ethical alchemy. If you behave in a certain way, you will be transformed. The myths and laws of religion are not true because they conform to some metaphysical, scientific or historical reality but because they are life enhancing. They tell you how human nature functions, but you will not discover their truth unless you apply these myths and doctrines to your own life and put them into practice.” — Karen Armstrong, [The Spiral Staircase: My Climb Out of Darkness](https://www.amazon.co.uk/dp/0007112170)



Prif Weithredwr, rhan amser, dros dro oedd y teitl anarferol gefais i ddeg mlynedd yn ôl. Roedd S4C mewn tipyn o bicl. Yn Ffrainc, ar wyliau penwythnos, y cefais yr alwad ffôn ddechreuodd ddeunaw mis o drïo cadw annibyniaeth a hygredd ein "Sianel fach gartrefol" a dyfynnu y diweddar Gwilym Owen. "Mae cleient angen cyngor," oedd y neges ffôn, "pryd 'da chi'n ôl yng Nghymru?" Dim awgrym o bwy oedd y cleient na pha help oedd ei angen. O leia roeddwn i'n adnabod y rhif ffôn geisiodd gysylltu. Dathlu penblwydd priodas un o'r teulu oedd y rheswm i mi fod yn Llydaw, ac felly wedi i mi wrando ar y neges ffôn, dyma ail ymuno a'r hwyl. Pnawn Sul oedd hynny a minnau yn teithio'n ôl fore Llun.

"Ydych chi'n rhydd nos Fawrth, tuag 8 or gloch?" oedd byrdwn y sgwrs ffôn ar fwrdd y fferi, "gallaf esbonio pethe yn well bryd hynny" meddai y gwr, oedd

yn gyn glient i mi a chwmni Cambrensis. Feddylies i ddim mwy am y mater gan fod galwadau brys fel hyn yn rhan arferol o fywyd gweithiwr hunan gyflogedig. Rhaid bod yn barod am unrhyw sefyllfa, her a siom. Does dim pwrpas paratoi ac ymchwilio o flaen llaw cyn bod y client yn cadarnhau bod gwir angen eich cymorth a bod yna dasg i'w chyflawni.

Gwylio newyddion *Channel 4* oeddwn pan ddaeth yr alwad toc wedi hanner awr wedi saith ar y nos Fawrth. "Dewch i S4C", oedd byrdwn y sgwrs fer. Gyrru fel Jehu o'r Creigiau a cheisio dyfalu beth fyddai'r dasg. Cyrraedd Llanisien a phencadlys y gwasanaeth cenedlaethol a chael fy hebrwng i ystafell yr Awdurdod a darganfod yno'r rhan fwyaf o aelodau y corff sydd yn gyfrifol am oruchwylio'r sianel. "Mae ein Prif Weithredwr wedi gadael" oedd y neges, "a rydyn ni am i chi fod yn gyfrifol am lunio datganiad i'r wasg." Gadewais y llywodraethwyr, a mynd i edrych am aelodau'r tîm rheoli a'u darganfod mewn sioc, gyda nifer yn crio. Y Prif Weithredwr ymadawedig, wedi'r cwbl, oedd wedi penodi'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Dyna mi'n esbonio beth oedd fy briffa a gofyn oedd 'na ddesg a chyfrifiadur sbâr imi ddechrau drafftio datganiad.

Deffrodd Cymry y bore wedyn i'r newyddion "syfrdanol" yn ôl y *Western Mail*, bod S4C heb Brif Weithredwr. Gofynnwyd i mi "aros o gwmpas" i helpu'r swyddogion a'r llywodraethwyr, wrth i'r cyfryngau fynd yn balistig. '*Crisis management*' mae nhw'n galw'r math hwn o sefyllfa, pryd mae rheswm a ffeithiau yn diflannu dan don o anghrediniaeth gan y wasg.

Wedi deuddydd o geisio cael trefn ac ennill cefnogaeth y staff, dyna'r Awdurdod yn gofyn i mi "Petai ni'n gofyn i chi fod yn Brif Weithredwr dros dro ac yn rhan amser am, dwedwch, dri mis fyddech chi'n ystyried dweud *ie*?" "Wrth gwrs" oedd fy ymateb, "mi geisiais i am y swydd pan sefydlwyd y sianel nôl yn 1982, pan ddewiswyd Owen Edwards yn Brif Weithredwr."

Drannoeth oedd diwrnod cyntaf Eisteddfod Glyn Ebwy a nodyn yn nyddiadur y swyddfa newydd yn nodi bod Ysgrifennydd Cymru, Cheryl Gillan, yn ymweld â stondin S4C i lansio cyfres golff am 9 y bore. Roedd ei phenodiad hi i Dŷ Gwydyr, bron mor annisgwyl â fy un innau i Barc Tŷ Glas.

"Fore" oedd y gair pwysig i'r ddau ohonom weiddi wrth i ni daro sawl pêl golff i lansio y gyfres ar "*S Fore C*". Rhybudd ydi "*fore*" pan fydd golffiwr yn colli rheolaeth ar gyfeiriad pêl golff. Mi glywes i lawer o "*fore*" yn ystod y deunaw mis y bum i wrth y llyw yn Llanisien, wrth i Jeremy Hunt, y Gweinidog Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon geisio dadwneud y ddeddfwriaeth sefydlodd y Sianel a bygwth annibyniaeth golygyddol y gwasanaeth, yn ogystal â chyllid yr holl fenter.

Gwenwch!

Dai yn dweud wrth Wil "Mae Nadolig ar ddydd Gwener 'leni.'" "Nid y trydydd ar ddeg gobeithio."

* ~ * ~ * ~ *

Ffarmwr yn torri'i galon ar ôl colli ci defaid. Ar ôl sbel, rhoi hysbyseb yn y papur ond dim ymateb. Y wraig yn gofyn beth oedd yn yr hysbyseb. "Come by."

Dwy dudalen i ail-gychwyn y tymor: cerdd fuddugol y Gadair yn Eisteddfod Y Rhondda gan Martin Huws a cherdd gan Hannah Roberts yn ffarwelio ag adeilad cyfarwydd yn Llandaf!

Protest

Mai 1968

Yn ein siacedi Wrangler trwsiadus
sychedwn am bob diferyn o'r stori
wrth lynu at sgrin.

Dwyfol yw'r sasparella ar dafod.
Sia'r ddiod
fel nwy dagrau ar y Boulevard Saint Michel.

Lapia menyw ifanc ei chariad
yn amdo hen got law fochedd.
Ar ben mae ei byd. Cafodd ei fwrw'n bedwar.

Ai dig'wilydd yw de Gaulle?
Ddaw i ben ei fytholeg wrth i'w deyrnas wegian?

Uwchben Paris
llwythog yw'r nen wa'th wylo seiren syn.
Cyn gorffwys heria'r myfyrwyr y cŵn gorffwyll
a haid ddihidio
sy'n brysur fel tŷ'n ferw o bryfed.

Weithiau daw taranfollt,
penglogau'n gnau'n holhti.

Ninnau'n gwylio swigod ein delfrydiaeth
yn pefrio
yn ein gwydrau gloyw.

Ond bydd y tân yn is
pan fydd siapiau sinistr arholiadau'n nesáu.

Martin Huws, Ffynnon Taf

Y TAIR LLYTHYREN

Cydiaf yn y canllaw
wrth esgyn y grisiau cyfarwydd,
a'r deinosor dur ar y gorwel!

Mae dwylo'r degawdau yma,
yn haenau heintus dan fy nghroen,
yn pilo'n y cof
fel papur wal hen aelwyd,
yma,
mae gwaddol y gwadnau
gerddodd y grisiau hyn.

Mangre'r "meic", mae hwn yn eicon.
Lleisiau fu'n llywio'r lle,
geiriau ar y gwifrau yn gwmni i'r dydd,
a Thedi Bêr bob Tachwedd
yn codi llaw,
gwên ar geir
â'i chwant i blant mewn angen.

Bu'r Gadeirlan gyfagos
yn glychau yn ei glustiau,
a'r tŵr mewn "tic toc" â'i drefn,
ymson hwn oedd "Amser".

Bellach,
bydd Llandaf yn llonydd,
newyddion
chwaraeon
a straeon yn fud,
a'r tair llythyren
wedi'u sychu bant
gan ddwster y dyfodol.



Pan ddaw'r hen ddinosor
i ddamshel ar ddegawdau o ddarlledu,
pan ddaw hwn â'i ddinistr
ar deulu o adeilad,
bydd malu mwy na mortar.

Yn y cof
bydd colli cyfnod,
y clwb,
y cymdeithasu,
ac a erys y coed ceirios
oedd yn gonffeti o briodas Mis Ebrill?!

Adeilad y tair llythyren.
bellach wedi mynd yn hen.

Dim gwadnau ar y grisiau,
dim llaw ar y canllaw,
am gyfnod, bydd y BBC
yn nes at "hunan ynysu".

Hannah Roberts, Llandaf

Beth am gyfrannu i'n rhifyn nesaf?

Ymhen bythefnos bydd hynny. **Deunydd erbyn Medi 16.**

Anfonwch air at Ifan Roberts

tycnau@aol.com

07761826977

Os na allwch fod yn yr oedfa gyntaf ym Methlehem ei hun, gwneir
pob ymdrech i roi'r gwasanaeth ar-lein i chi, maes o law.

